# Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
# Canllawiau Tir a Eithrir i Gymru

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r amgylchiadau lle yr eithrir tir a fyddai fel arall yn dir mynediad dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a lle nad yw hawliau mynediad yn berthnasol.

Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 hawliau mynediad cyhoeddus ar droed newydd yng Nghymru i'r mathau canlynol o dir:

- tir a ddangosir fel cefn gwlad agored (sy'n cynnwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf fynydd-dir, gweundir neu rostir) ar Fapiau Terfynol a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- tir comin a gofrestrwyd yn derfynol a ddangosir ar Fapiau Terfynol a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- tir sydd wedi'i gyflwyno'n dir Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 o dan Adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Rhestrir y mathau o dir a eithrir mewn print du isod. Nid yw'r canllawiau o dan bob math o dir a restrir yn rhoi dehongliad awdurdodol o'r ddeddfwriaeth, sy'n fater i'r llysoedd. Yn ogystal, dim ond amlinelliad bras iawn o'r ddeddfwriaeth a geir yn y canllawiau hyn. Os nad ydych yn siŵr, dylech ymgynghori â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn enwedig Atodlen 1.

## Categorïau o Dir a Eithrir

**Tir a orchuddir gan adeiladau neu gwrtil tir o'r fath.**

Mae'r term "adeilad" (a ddiffinnir ym mharagraff 12 o Atodlen 1) yn cynnwys y rhan fwyaf o fathau o strwythurau, gan gynnwys rhai symudol megis pebyll a charafannau.

Nid yw'r term "cwrtil" wedi'i ddiffinio, ond yn gyffredinol ei ystyr yw ardal fach, sy'n rhan o'r tŷ neu'r adeilad y mae'n gysylltiedig ag ef. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd maint y cwrtil yn glir: fel arfer, clostir o amgylch annedd sy'n cynnwys gardd, garej a thramwyfa i'r ochr; clostir â mur o'i gwmpas y tu allan i ysgubor, neu gasgliad o adeiladau wedi'u clystyru o amgylch tŷ fferm a buarth fferm.

**Tir o fewn 20 metr i annedd.**
Fel arfer, adeilad lle y mae pobl yn byw yw annedd. Mae 20 metr yn cyfateb i tua 60 o droedfeddi, neu hyd cwrt tennis.

**Tir a ddefnyddir fel parc neu ardd.**
Yn ogystal â meysydd chwaraeon neu fannau chwarae trefol, gall y term gynnwys tir wedi'i dirlunio o amgylch tŷ, megis plas. Gall parc gynnwys gerddi addurnol,

nodweddion dŵr neu olygfeydd eraill o waith dyn. Mae gardd fel arfer yn dir amgaeëdig ger adeilad. Fel arfer mae'n cynnwys lawntiau, borderi blodau a phlanhigion gardd eraill.
**Tir a ddefnyddir i gael mwynau drwy weithio ar yr arwyneb (gan gynnwys chwarela).**
Mae hyn yn cynnwys pob math o chwareli sy'n gweithio a hefyd safleoedd a ddefnyddir i echdynnu mawn yn fasnachol.

**Tir a ddefnyddir at ddibenion rheilffordd (gan gynnwys rheilffordd gul) neu dramffordd.**
Mae hyn yn cynnwys rheilffyrdd neu dramffyrdd sy'n gweithio. Mae tir arall a ddefnyddir at ddibenion sy'n gysylltiedig â rheilffordd neu dramffordd (e.e. argloddiau rheilffordd ac ierdydd trefnu) hefyd yn dir a eithrir.

**Tir a ddefnyddir at ddibenion cwrs golff, cae rasio neu faes awyr.**
Mae cwrs golff yn cynnwys tŷ'r clwb ac adeiladau eraill, meysydd parcio, mannau ymarfer a mannau chwarae megis griniau a ffyrdd teg.

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd caeau rasio wedi'u ffensio ac wedi'u marcio ag arwyddion a byddant yn hawdd eu hadnabod.

Bydd llawer o feysydd awyr wedi'u ffensio'n ddiogel. Bydd rhai yn llai ffurfiol ac yn cael llai o ddefnydd, ond nid yw'r hawl mynediad newydd yn berthnasol hyd yn oed i leiniau glanio bach heb eu ffensio pan fyddant yn cael eu defnyddio.

**Tir nad ydyw'n perthyn i unrhyw un o'r categorïau blaenorol ac a orchuddir gan weithfeydd a ddefnyddir at ddibenion ymrwymiad statudol neu system godau telathrebu, neu gwrtil unrhyw dir o'r fath.**

Diffinnir y term "ymrwymiad statudol" ym mharagraff 14 o Atodlen 1 ac mae'n cwmpasu ystod eang o ymrwymiadau gan gynnwys darparu trafnidiaeth, cyflenwi ynni, a dŵr a charthffosiaeth.

Mae gweithfeydd yn cynnwys is-orsafoedd trydan, cronfeydd dŵr a mastiau ffôn a hefyd waith cyhoeddus dros dro, megis ffosydd.

**Tir lle y mae gwaith datblygu yn mynd rhagddo a fydd yn golygu, ar ôl ei gwblhau, fod y tir wedyn yn perthyn i un o'r categorïau uchod.**

Os yw tir wrthi'n cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio at un o'r dibenion a nodwyd uchod, mae hefyd yn dir a eithrir.

**Tir o fewn 20 metr i adeilad a ddefnyddir i gadw da byw dan do, nad yw'n strwythur dros dro na symudol.**

Diffinnir y gair "da byw" fel gwartheg, defaid, geifr, moch, ceffylau neu ddofednod.

**Tir a orchuddir gan gorlannau a ddefnyddir ar gyfer derbyn neu gadw da byw dros dro.**
Mae'r categori hwn yn cwmpasu llety dros dro ar gyfer da byw, yn hytrach nag adeiladau parhaol.

**Tir a ddefnyddir fel arfer ar gyfer hyfforddi ceffylau rasio.**

Yn draddodiadol byddai hyn yn cynnwys tir hyfforddi carlamu. Dim ond rhwng toriad y wawr a hanner dydd ar unrhyw ddiwrnod, ac ar unrhyw adeg arall pan ddefnyddir y tir at y diben hwnnw, y mae'r tir yn dir a eithrir.

**Tir y rheoleiddir y defnydd a wneir ohono gan is-ddeddfau o dan adran 14 o Ddeddf Tir Milwrol 1892 neu adran 2 o Ddeddf Tir Milwrol 1900.**
Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o ardaloedd hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Fel arfer bydd arwyddion rhybuddio am berygl ar y tir hwn ac weithiau bydd wedi'i ffensio. Er nad yw'r hawl mynediad newydd yn berthnasol i'r tir hwn, efallai y ceir mynediad wedi'i reoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dylai pobl gysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn cyn cerdded mewn ardaloedd o'r fath.

**Tir lle y terfir ar y pridd, neu lle y tarfwyd ar y pridd unrhyw bryd yn ystod y 12 mis blaenorol, gan unrhyw waith aredig neu ddrilio sy'n cael ei wneud at ddibenion plannu neu hau cnydau neu goed.**

Mae aredig yn cynnwys gweithrediadau amaethyddol neu weithrediadau coedwigaeth sy'n debyg i aredig. Yn yr un modd, mae drilio yn cynnwys gweithrediadau amaethyddol neu weithrediadau coedwigaeth sy'n debyg i ddrilio.

Lle bo hawliau mynediad eraill yn bodoli, er enghraifft, hawliau tramwy cyhoeddus, bydd y rhain yn parhau i fod yn berthnasol.